# Gwneud Synnwyr

**Canfod y ffordd drwy chwarae synhwyraidd**

# Synnwyr Ci

GUIDE DOGS
Cymru



## Gweld y byd drwy Lygaid Cŵn Tywys

# Gwneud Synnwyr


Canfod y ffordd drwy chwarae synhwyraidd

# Synnwyr Ci


## Cyflwyniad i Synnwyr Ci

Mae pob un ohonom yn gwybod am y gwaith gwych mae cŵn tywys yn medru ei wneud. Ydych chi erioed wedi ystyried sut mae synhwyrau'n cŵn yn cymharu â'n synhwyrau ni ein hunain? Mae cŵn yn rhannu'r un synhwyrau sylfaenol â ni: maent yn gallu gweld, clywed, teimlo, arogli a blasu. Ond mae lefelau eu synhwyrau'n wahanol.

**Beth ydych chi'n ei weld**



**Beth mae cŵn yn eu gweld**



## Dyma sut ydym ni'n gweld y byd

## Ond mae cŵn yn wahanol iawn

Mae cŵn yn defnyddio'u synhwyrau er mwyn prosesu meddyliau a gall cael dealltwriaeth o'r synhwyrau gwahanol sydd gan gŵn a'r modd y maent yn eu defnyddio ein cynorthwyo i adeiladu cwlwm a dealltwriaeth well gan ganiatáu gwell perthynas rhwng dyn â'i gi. Bydd dysgu am sut mae cŵn yn gweld y byd o'u cwmpas drwy ddefnyddio eu set unigryw o synhwyrau ein cynorthwyo i ddeall y gwahaniaethau rhyngom a hefyd sut allwn ni ddefnyddio'r synhwyrau hyn er mwyn hyfforddi cŵn i ddyfod yn gŵn tywys.

Mae cŵn bach yn cael eu geni'n fyddar ac nid ydynt yn gallu clywed hyd nes y maent yn 21 diwrnod oed.

Gall cŵn nid yn unig weld mewn gwahanol ddwyster o ddu a gwyn ond hefyd mewn amrywiol ddwyster o las a melyn yn ogystal.



Gall cŵn ddynodi arogleuon rhywle rhwng 1,000 a 10,000 gwaith yn well na dynion!

Mae gan gŵn oddeutu 1,706 o flasbwyntiau. Cymharwch hyn â dynion sydd â 9,000 o flasbwyntiau.


# Cŵn Tywys – Mae'n Gwneud Synnwyr


## Synhwyrau – Y gwahaniaeth rhwng cŵn â ni

# Gweld


Mae llygad ci a llygad dyn yn wahanol iawn i'w gilydd. Mae cŵn nid yn unig yn gweld mewn gwahanol ddwyster o ddu a gwyn ond maent hefyd yn gweld gwahanol ddwyster o las a melyn yn ogystal. Er enghraifft, byddai enfys i gi yn las tywyll, glas golau, llwyd golau, melyn golau, melynfrown tywyll a llwyd tywyll.

Gall dynion wahaniaethu rhwng tua 10 miliwn o wahanol liwiau! Ni all gŵn, ar y llaw arall weld cymaint o liwiau â dynion. Mae gan gŵn gwell allu i sylwi ar symudiad – dyna un rheswm pam allant ddynodi cath sydd fyny fri ar goeden o bellter, yn well nag y gallwch chi!




Ci




Ci Tywys

# Arogli

Gallwn ddim hyd yn oed dod yn agos at allu'n ci i arogli pethau. Mae'r synnwyr arogli'n wahanol iawn rhwng cŵn a phobl.



Amcangyfrifwyd y gall cŵn ddynodi arogleuon rhwng 1,000  a 10,000 gwaith yn well na dynion!

Ydych chi erioed wedi ystyried pam fod eu trwynau'n wlyb? Mae'r mwcws sydd ar drwyn ci yn help iddo gasglu gronynnau arogleuon. Mae cŵn yn defnyddio eu trwynau gwlyb er mwyn canfod o ba gyfeiriad y daw gwynt ohono.

# Does dim trwyn gan fy nghi i!

**Yna sut mae'n arogli? Yn ofnadwy!**

Gall cŵn ddefnyddio pob ffroen yn unigol er mwyn gwella eu galluoedd arogli. Ydych chi'n gwybod bod ein synnwyr blasu yn cael ei ddylanwadu gan synnwyr arall? Ein synnwyr arogli. Meddylir fod ein synnwyr blasu yn cael ei ddylanwadu gan 80 y cant o'n synnwyr arogli!



Gall cŵn synhwyro arogleuon sydd 100 miliwn gwaith yn llai crynodedig na'r hyn y gallwn ni ddynion eu harogleuo. Synnwyr arogli yw'r synnwyr mwyaf esblygedig sydd gan gi.

# Clywed

Mae gan gi synnwyr clyw gwych. Dyma ei ail synnwyr gorau ( ar ôl ei synnwyr arogli.) Mae cŵn bach yn cael eu geni'n fyddar ac ni allant glywed hyd nes eu bod yn 21 diwrnod oed.

Erbyn bod eu synnwyr clyw wedi datblygu, gallant yn barod glywed pellter sydd 4 gwaith yn fwy na dyn sydd â chlyw cyffredin. Mae hynny'n golygu efallai y gallwch chi glywed rhywbeth sydd 100 llath i ffwrdd a gall eich ci glywed rhywbeth sydd chwarter milltir i ffwrdd!



**Mae gan gi 18 cyhyr gwahanol yn ei glustiau sy'n ei ganiatáu i symud ei glustiau i gyfeiriad yr hyn y maen'n ei glywed.**

Weithiau, gall ci wyro ei ben i gael gwell ongl o'r sŵn. Mae gan gŵn sydd â chlustiau syth (tebyg i'n Ci Bugail Almaenaidd) fel arfer gwell clyw na chŵn sydd â chlustiau llipa.

Hefyd, gallant symud un glust ar y tro – ac yn annibynnol o'r llall er mwyn derbyn hyd yn oed mwy o wybodaeth!

Gallwch chi symud eich clustiau'n annibynnol o'i gilydd?



**Y tro nesaf y byddwch yn clywed eich ci'n cyfarth ar y gwynt, gallai ef/hi fod yn clywed rhywbeth diddorol iawn!**

# Cyffwrdd

Yn rhyfeddol, mae gan gŵn synnwyr cyffwrdd sydd wedi datblygu'n dda o dan yr holl ffwr ac o'r pum synnwyr sydd gan gŵn a dynion, cyffwrdd yw'r mwyaf tebyg.

Cyffwrdd yw'r synnwyr cyntaf y mae cŵn yn eu datblygu ac mae'n parhau'n synnwyr pwysig trwy gydol eu bywyd.

## Oeddech chi'n gwybod?

**Mae dros 6000 o gŵn bach wedi cael eu geni yn ein Canolfan Fridio Genedlaethol**

Mae mamau'n dechrau cyffwrdd cŵn bach newydd anedig yn syth wedi iddynt gael eu geni gan eu llyfu a'u swatio'n agos. Mae cŵn bach yn swatio'n reddfol â'u mamau gan ddefnyddio eu pawennau i gychwyn y llif llaeth, yn debyg iawn i'r hyn y mae babanod newydd anedig yn eu gwneud.



# Blasu

Yr olaf ond mae'r un mor bwysig. . . Blasu! Synnwyr blasu ci yw'r synnwyr lleiaf datblygedig ac yn debyg i ni ddynion, mae blas wedi ei gysylltu'n agos â synnwyr arogli.




Y prif wahaniaeth â blas rhwng pobl a chŵn yw na fydd pobl yn bwyta rhywbeth sy'n arogli'n wael. Rydym yn dueddol i drio rhywbeth cyn i ni benderfynu os ydym yn ei hoffi ai peidio ond mae'r gwrthwyneb yn wir am gŵn - y mwyaf drewllyd, y gorau!

Ni fyddwn ni'n bwyta rhywbeth nad sy'n edrych yn apelgar ac sy'n arogleuo'n dda ond mae cŵn yn poeni'n fwy am sut mae rhywbeth yn arogleuo nag y mae'n blasu. Maent yn aml yn llowcio bwyd cyn iddynt gael amser i'w gnoi, heb sôn am ei flasu.

**Mae gan gŵn 1,706 o flasbwyntiau. Mae gan ddynion 9,000 ohonynt,**



sydd felly'n eu gadael â thaflod sydd chwe gwaith yn fwy israddol na'n un ni. Mae'r blasbwyntiau wedi eu gosod ar flaen tafod eich ci a gall flasu blasau sur, melys, chwerw a hallt yr un fath ag y gallwn ni.




Helo, fy enw i yw Caroline a fy ngwaith i yw hyfforddi Hero i fod yn Gi Tywys. Yn ein hysgol hyfforddi, mae yna lawer o olygfeydd a synau iddo ddod i arfer â hwy. Mae angen i mi ei ddysgu i ddefnyddio ei synnwyr clywed er mwyn gwrando arnaf a rhoi llawer o ganmoliaeth iddo am ymateb i gyfarwyddiadau tebyg i "Eistedd." Gall Hero weld gwrthrychau yn yr amgylchedd yn barod ond rwy'n defnyddio'r cwrs rhwystrau i'w ddysgu fod rhaid iddo fynd o'u hamgylch - nid dros neu drwy fel y byddai'r mwyafrif o gŵn anwes yn eu gwneud. Bydd Hero yn mynd yn y van hyfforddi er mwyn teithio i wahanol fannau ond rydym bob amser yn diffodd yr injan wrth iddo fynd i mewn gan y gall arogleuon y mygrdarth fod yn annifyr i drwyn mor sensitif ag un Hero!

**Ysgrifennwch am sut y mae Hero yn gweld yr amgylchedd.**

**Beth mae'n ei glywed neu'n ei arogleuo?**



> Y bore yma, mae Hero a finnau'n cerdded i'r dref. Mae'n ddiwrnod casglu sbwriel ac er nad wyf i'n sylwi ar hynny, mae'r awyr yn ddrewllyd ac mae Hero yn ei chael hi'n anoddach canolbwyntio arnaf i. Mae Hero hefyd yn dysgu er bod yna blant hapus yn chwerthin wrth yr arhosfa fws, mae'n rhaid iddo ganolbwyntio ac ni all stopio a dweud helo pan mae'n gweithio. Rydym yn symud o amgylch rhwystr ac wrth iddo deimlo fy nghoes yn erbyn ei ochr, mae'n gwybod fod angen iddo adael mwy o le i mi'r tro nesaf.
>
> Gall hefyd deimlo'r palmant o dan ei bawennau a lle y mae'r ddaear yn mynd i lawr i'r cwrb ar ochr y ffordd. Mae'n stopio i ddweud wrthyf fod yna berygl - mae Hero'n anhygoel ac yn dysgu mor dda!

**Ysgrifennwch am sut mae Hero'n gweld yr amgylchedd.**

**Beth mae'n ei weld, ei glywed a'i arogleuo?**





Mae wedi dechrau glawio felly rydym yn galw i mewn i siop goffi er mwyn rhoi gorffwys i Hero. Mae'r glaw yn gwneud yr arogleuon yn gryfach a'r synau'n fwy swnllyd wrth i'r ceir sblasio trwy'r pyllau ac i bobl fynd ar frys o fan i fan. Rydym yn defnyddio'r amser hwn er mwyn gweithio ar ei ymddygiad 'cymdeithasol.'

Wrth gwrs, mae yna friwsion ar y llawr ond mae Hero'n gwybod fod y danteithion sydd gen i yn fy mhoced yn fwy blasus o lawer ac mae'n aros wrth fy ochr er mwyn i ni ddod o hyd i gadair wag. Pan mae Hero'n gorwedd lawr o dan y bwrdd, rydw i'n dweud "bachgen da" wrtho ac yn anwesu ei ben yn dyner. Mae bod yn llonydd a thawel mor bwysig er mwyn i Hero alli mynd i unrhyw le gyda'i Berchennog Ci Tywys wedi iddo gael ei hyfforddi.

**Ysgrifennwch am sut y mae Hero'n gweld yr amgylchedd.**

**Beth y mae'n ei weld, ei glywed a'i arogleuo?**



Ar y ffordd adref, rydym yn stopio yn y parc. Mae Hero'n cael ei ryddhau o'i dennyn - "cer yn rhydd, Hero" rwy'n dweud yn hapus. Mae'n teimlo'r borfa o dan ei bawennau ac yn rhedeg mewn cylchoedd yn llawen. Mae'n cael amser gwych yn arogleuo'r glaswellt er mwyn gweld lle y gallai'r cŵn eraill fod wedi bod. Er ei fod yn amser chwarae, mae'n rhaid i Hero aros yn agos ataf. Rwy'n chwythu chwiban er mwyn dweud wrtho ei fod yn amser iddo ddod yn ôl ataf ac mae'n gosod ei ben esmwyth ar fy llaw er mwyn gadael i mi wybod ei fod yn ddiogel. Mae yna wiwerod yn y parc, mae Hero'n gwrando ar y gwiwerod yn siarad am beth fyddant yn eu cael i de - dydw i ddim yn gallu eu clywed ond mi all Hero ac mae'n penderfynu fod ei fisgedi yn llawer mwyn blasus! Mae yna bobl yn chwarae gemau pêl yma hefyd. Rwy'n dysgu Hero ei fod yn llawer mwy o hwyl i chwarae gyda mi. Rwy'n edrych ar fy oriawr ac yn gweld ei fod yn amser i fynd adref lle bydd Hero yn cysgu ac yn breuddwydio am yr holl bethau y mae wedi eu gweld, eu gwynto, eu clywed a'u teimlo heddiw. . .

**Ysgrifennwch am sut y mae Hero'n gweld yr amgylchedd**

**Beth y mae'n ei weld, ei glywed a'i arogleuo?**

# Gwneud Synnwyr

Canfod y ffordd drwy chwarae synhwyraidd

# Synnwyr Ci

GUIDE DOGS
Cymru



ymwelwch

www.guidedogs.org.uk/learning

am adnoddau am ddim

Enw gwaith yw Guide Dogs ar gyfer cymdeithas cŵn tywys The Guide Dogs for the Blind Association. Swyddfa Gofrestredig: Hillfields, Burghfield Common, Reading, Berkshire, RG7 3YG. Cwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (291646) ac elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (209617) a'r Alban (SC038979). 9524 07/18